SGÔR HYLENDID BWYD

FOOD HYGIENE RATING

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013**

# 'Hawl i Ymateb'

**Nodiadau ar gyfer busnesau**

- Fel gweithredwr busnes bwyd y sefydliad mae gennych 'hawl i ymateb', o dan Adran 11 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, mewn perthynas â'r sgôr hylendid bwyd a roddwyd yn dilyn yr arolygiad ar eich sefydliad. Gallwch arfer yr hawl hwn ar unrhyw adeg tra bo'r sgôr yn ddilys.
- Pwrpas yr hawl i ateb yw eich galluogi i roi esboniad o'r camau gweithredu dilynol sydd wedi'u cymryd i wneud y gwelliannau gofynnol a nodir yn y llythyr yr arolygiad neu i roi amgylchiadau lliniarol ar adeg yr arolygiad. Nid ei ddiben yw gwneud cwynion neu feirniadu'r cynllun sgorio neu'r swyddog diogelwch bwyd a gynhaliodd yr arolygiad.
- Os ydych am ddefnyddio'r hawl i ateb yma, os gwelwch yn dda defnyddiwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at y swyddog diogelwch bwyd a gynhaliodd eich archwiliad – caiff manylion cyswllt eu darparu gyda'r hysbysiad ysgrifenedig o'ch sgôr hylendid bwyd.
- Mae'n rhaid i'ch sylwadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig, ond nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon. Gallwch gyflwyno eich sylwadau ar ffurf ysgrifenedig wahanol.
- Mae sylwadau tramgwyddus, difenwol a sylwadau sy'n amlwg yn wallus neu'n amherthnasol yn annerbyniol. Os byddwch yn cyflwyno sylwadau o'r fath byddwch yn cael eich gwahodd i ddiwygio eich testun.
- Bydd eich sylwadau yn cael eu cyflwyno i'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'u cyhoeddi ar-lein a'u harddangos ynghyd â'ch sgôr hylendid bwyd yn food.gov.uk/ratings.

| | |
|---|---|
| Gweithredydd busnes bwyd | |
| Enw'r busnes | |
| Cyfeiriad y busnes | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad | | Sgôr hylendid bwyd a roddwyd | |

21 Tachwedd 2013

SGÔR HYLENDID BWYD
FOOD HYGIENE RATING

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

☐ Yr wyf yn cytuno â chanfyddiadau'r arolygiad ond ers hynny mae'r gwelliannau canlynol wedi cael eu gwneud (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

- ☐ Mae'r sefydliad wedi cael ei lanhau'n drylwyr ac mae gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod glendid yn cael ei gynnal.
- ☐ Mae'r sefydliad wedi, neu ar fin, cael ei adnewyddu'n llawn
- ☐ Mae system reoli newydd wedi cael ei rhoi ar waith.
- ☐ Erbyn hyn mae rheolwr newydd a/neu staff newydd
- ☐ Mae'r staff wedi cael eu hyfforddi/ail-hyfforddi/derbyn cyfarwyddyd/dan drefniadau goruchwylio diwygiedig
- ☐ Arall - ymhelaethwch isod a defnyddiwch y gofod a ddarperir yn unig

☐ Nid oedd yr amodau a ganfyddwyd ar adeg yr arolygiad yn nodweddiadol o'r amodau arferol a gynhelir yn y sefydliad ac roeddent yn codi oherwydd (Eglurwch isod a defnyddiwch y gofod a ddarperir yn unig. Gallwch hefyd nodi unrhyw welliannau eraill a wnaed):

SGÔR HYLENDID BWYD

FOOD HYGIENE RATING

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arwyddwyd | | | |
| Enw mewn priflythrennau | | | |
| Safle | | Dyddiad | |

**Dylech ddychwelyd y ffurflen hon at: CBS Caerffili, Diogelwch Cyhoeddus, Ty Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG. Ebost: www.foodhealthandsafety@caerphilly.gov.uk**